Cardiau Darllen Grŵp

Canllawiau i'r athro



"Dysgu sut i ddarllen yw'r sylfaen i ddyfodol addysgol llwyddiannus ....."

ESTYN

Words Talk-Numbers Count
Geiriau'n Galw-Rhifau'n Cyfri

Pwysigrwydd Darllen

Cymraeg

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio

Darllen

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddefnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau ……
- ddarllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ……

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar
- ddarllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen …… mewn grŵp.
- brofi amrywiaeth o destunau a ffurfiau ……

Beth yw darllen grŵp?

- Grŵp o bedwar neu lai o ddisgyblion yn darllen yr un testun
- Y testun hwnnw yn dod yn sail i drafodaeth
- Nifer helaeth o destunau amrywiol yn cael eu defnyddio

Beth yw manteision darllen grŵp?

- Pwrpas darllen grŵp yw datblygu darllenwyr annibynnol
- Mae'n rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill sy'n yr un grwp â nhw
- Rhoir cyfle iddyn nhw fynegi barn a chynnig rhesymau dros y farn honno
- Mae'n rhoi cyfle iddyn nhw ddatrys problemau
- Mae'n datblygu eu sgiliau holi

Datblygu Sgiliau Darllen (Cyhoeddiadau CBAC)

Sut mae mynd ati i ddarllen grŵp?

- Rhaid pennu amser penodol i weithgaredd darllen grŵp (mae angen iddo fod yn rhan o amserlen y dosbarth)
- Rhaid parhau i wneud hyn yn rheolaidd
- Bydd angen rhannu'r disgyblion i grŵpiau o bedwar neu lai mewn nifer, a hynny yn unol â gallu, oedran, diddordeb, a.y.y.b.
- Dylid amrywio'r grŵpiau yn ôl yr angen — rhaid bod yn hyblyg i wneud newidiadau
- Cyn cyflwyno'r testun mae'n syniad i fynd ati i dynnu sylw'r disgyblion at unrhyw eiriau newydd ac anghyfarwydd
- Bydd angen copi o'r testun ar bob disgybl
- Dylid cyflwyno'r testun cyn dechrau ar y darllen drwy drafod: Pa fath o destun? Beth yw nodweddion y testun? a.y.y.b
- Dylai'r testun hwnnw fod yn sbardun i drafodaeth lle ceir amrywiaeth o gwestiynau

Sut mae defnyddio'r Cardiau Darllen Grŵp?

- Yn y pecyn ceir 30 o gardiau darllen sy'n amrywio o ran cynnwys y testunau o fod yn ddyddiadur, cerddi, llythyr, testun ffeithiol, a.y.y.b.
- Bydd angen rhannu'r disgyblion i grŵpiau o bedwar disgybl neu lai mewn nifer, a hynny yn unol â gallu, oedran, diddordeb a.y.y.b.
- Bydd angen dewis un o'r cardiau darllen i'w hastudio ar y tro
- Mae'r cardiau wedi eu gwahaniaethu, felly bydd angen dewis yr ochr lliw hufen (i'r darllenwyr hynny sydd angen hwb) neu'r ochr lliw glas (ar gyfer darllenwyr mwy hyderus)
- Gellir amrywio technegau o ran y darllen — darllen unigol, darllen gyda chymorth neu gyd-ddarllen, fel bo'n addas
- Ar ddiwedd pob cerdyn ceir cwestiynau lle mae'r atebion ynghudd yn y testun ac un cwestiwn sy'n ennyn trafodaeth
- Anelir at gyflawni'r dasg o fewn 30 munud

Lliw hufen ar gyfer y darllenwyr sydd angen hwb




4 cwestiwn am gynnwys y testun

cwestiwn trafod cyffredinol

testun darllen
(llai o wybodaeth na'r cerdyn glas)

Lliw glas ar gyfer y darllenwyr mwy hyderus




6 cwestiwn am gynnwys y testun

cwestiwn trafod cyffredinol

testun darllen
(mwy o wybodaeth na'r cerdyn hufen)

Edrych ar glawr llyfr





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Pwy yw golygydd y llyfr?
2. Beth sydd yn y llyfr?
3. Faint mae'r llyfr yn ei gostio?
4. Pa wasg sydd wedi cyhoeddi'r llyfr?




Trafodwch:-

- Ydych chi wedi bod ar daith ar drên o'r blaen?
- I ble aethoch chi?
- Pa fath o daith oedd hi?
- A wnaethoch chi fwynhau?

Edrych ar glawr llyfr







Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy yw golygydd y llyfr?
2. Beth sydd yn y llyfr?
3. Faint mae'r llyfr yn ei gostio?
4. Pa wasg sydd wedi cyhoeddi'r llyfr?
5. Pa fath o gerddi sydd yn y llyfr?
6. Enwch y beirdd.



Trafodwch:-

- Ydych chi wedi bod ar daith ar drên o'r blaen?
- I ble aethoch chi?
- Pa fath o daith oedd hi?
- A wnaethoch chi fwynhau?

CLWB NI

yn cyflwyno

SIOE GERDD

Twm Siôn Cati

yn Neuadd yr Ysgol Uwchradd, Caersteffan

Nos Wener, Hydref 10
am 7.30 y.h.

Oedolion: £3.50
Plant a phensiynwyr: £2.00


Bydd yr elw yn mynd tuag at yr ysgol

Tocynnau ar werth yn:
Siop Lyfrau Y Barcud



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw'r sioe gerdd?
2. Ble mae'r sioe yn cael ei chynnal?
3. Faint o'r gloch mae'r sioe yn dechrau?
4. Faint mae tocyn i blentyn yn costio?



Trafodwch:-

Allwch chi feddwl am wahanol ffyrdd o godi arian tuag at elusennau?

CLWB NI

yn cyflwyno

SIOE GERDD

Twm Siôn Cati

yn Neuadd yr Ysgol Uwchradd,
Caersteffan

Nos Wener, Hydref 10
Nos Sadwrn, Hydref 11
am 7.30 y.h.


Te / Coffi a bisgedi ar gael yn yr egwyl

Oedolion: £3.50
Plant a phensiynwyr: £2.00

Bydd yr elw yn mynd tuag at yr ysgol




Tocynnau ar werth yn:
Siop Lyfrau Y Barcud





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth mae *Clwb Ni* yn ei gyflwyno?
2. Ble mae'r sioe yn cael ei chynnal?
3. Ar ba ddyddiadau mae'r sioe?
4. Beth sy'n cael eu cynnig yn ystod yr egwyl?
5. Faint mae tocyn i blentyn yn costio?
6. Pwy fydd yn derbyn yr elw?



Trafodwch:-

Allwch chi feddwl am wahanol ffyrdd o godi arian tuag at elusennau?

Cerdyn Post

Annwyl Cara,

Dyma fi ar fy ngwyliau yn Llandudno gyda dad, Anti Gwen a Jac. Rydyn ni'n mynd i'r traeth bob dydd ac rydw i wedi dal cranc! Gwnaeth y cranc gnoi bys Jac, ac roedd e'n crio! Mae'r tywydd yn braf iawn ac rydw i wedi llosgi fy nhrwyn. Efallai y cawn ni fynd ar gefn asyn fory, neu efallai cawn ni fynd i'r ffair. Mae'r ffair yn edrych yn wych.

Wela i di'n fuan,

Mari

xx





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Mari ar ei gwyliau?
2. Pwy sydd ar eu gwyliau gyda Mari?
3. Beth wnaeth Mari ei ddal?
4. Beth sydd wedi digwydd i drwyn Mari?



Trafodwch:-

Beth ydych chi'n hoffi ei wneud ar eich gwyliau chi?

Cerdyn Post

Annwyl Cara,

Dyma fi ar fy ngwyliau yn Llandudno gyda dad, Anti Gwen a Jac. Rydyn ni'n mynd i'r traeth bob dydd ac rydw i wedi dal cranc! Gwnaeth y cranc gnoi bys Jac, ac roedd e'n crio! Mae'r tywydd yn braf iawn ac rydw i wedi llosgi fy nhrwyn. Efallai y cawn ni fynd ar gefn asyn fory, neu efallai cawn ni fynd i'r ffair. Mae'r ffair yn edrych yn wych ac yn llawer o sbri.

Wela i di'n fuan,

Mari





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Ble mae Mari ar ei gwyliau?
2. Pwy sydd ar eu gwyliau gyda Mari?
3. Beth wnaeth Mari ei ddal?
4. Beth ddigwyddodd i Jac?
5. Beth sydd wedi digwydd i drwyn Mari?
6. Beth ydych chi'n meddwl mae Mari'n hoffi ei wneud ar ei gwyliau?



Trafodwch:-


Beth ydych chi'n hoffi ei wneud ar eich gwyliau chi?

Jôcs



Beth wyt ti'n galw mwnci efo dant melys ?

Myrang otang !




Beth sy ' n dal ac yn arogli ' n dda ?

Jiraffodil !



Beth sy'n frown, gyda dau grwmp ym Mhegwn y Gogledd ?

Camel ar goll.



Pryd mae cangarŵ yn cael ei eni ?


MEWN BLWYDDYN NAID.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd mae cangarŵ yn cael ei eni ?
2. Beth yw'r cwestiwn i'r ateb yma—

   Myrang Otang ?
3. Beth sydd ar goll ?
4. Beth sy'n dal ac yn arogli'n dda ?



Trafodwch:-

Ar ôl darllen y jôcs eto, ydych chi'n gallu eu cofio a'u dweud nhw wrth eich ffrindiau ?

Jôcs

Anifeiliaid



Beth wyt ti'n galw mwnci efo dant melys ?


Myrang otang !


Ti'n weld o,mae'n diflannu, ti'n weld o, mae'n diflannu ? Beth ydy o ?


Sebra yn croesi'r ffordd ar groesfan.

Beth sy 'n dal ac yn arogli 'n dda ?

Jiraffodil !







Beth sy'n frown, gyda dau grwmp ym Mhegwn y Gogledd ?

Camel ar goll.


Pryd mae cangarŵ yn cael ei eni ?

MEWN BLWYDDYN NAID.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Jôcs am beth yw rhain ?
2. Beth yw'r cwestiwn i'r ateb yma—Myrang Otang ?
3. Pa anifail sy'n diflannu wrth groesi'r groesfan ?
4. Beth sydd ar goll ?
5. Beth sy'n dal ac yn arogli'n dda ?
6. Pryd mae'r cangarŵ yn cael ei eni ?



Trafodwch:-

Ar ôl darllen y jôcs eto, ydych chi'n gallu eu cofio a'u dweud nhw wrth eich ffrindiau ?
Ydych chi'n cofio jôc arall i rannu gyda'ch ffrindiau ?

Beiciau ar Werth

Beic pinc yn addas i ferch fach rhwng 3 a 7 oed. Olwynion bach ar gyfer dysgu reidio. Basged i'r ddol.



£45.00

Beic mynydd coch ar gyfer plentyn 15 oed. Teiars cryf, sedd ledr, ffrâm ysgafn a 15 gêr.

£99.00





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa feic sy'n addas i blentyn ddysgu reidio?
2. Sawl gêr sydd gan y beic mynydd?
3. Faint mae'r beic pinc yn ei gostio?
4. Pa fath o deiars sydd gan y beic mynydd?

Trafodwch:-

Pam ei fod yn beth da, neu ddim yn beth da, i wisgo helmed wrth feicio?

Beiciau ar Werth

Beic pinc yn addas i ferch fach rhwng 3 a 7 oed. Olwynion bach ar gyfer dysgu reidio. Basged i'r ddol.



£45.00

Beic mynydd coch ar gyfer plentyn 15 oed. Teiars cryf, sedd ledr, ffrâm ysgafn a 15 gêr.



£99.00

Beic rasio coch. Ffrâm ac olwynion ysgafn. Hawdd i'w gario. Olwynion yn dod i ffwrdd yn rhwydd. Addas i lwybr neu'r ffordd fawr.



£359.99



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa feic sy'n addas i blentyn ddysgu reidio?
2. Beth yw pris y beic rasio coch?
3. Sawl gêr sydd gan y beic mynydd?
4. Faint mae'r beic pinc yn ei gostio?
5. Pa fath o deiars sydd gan y beic mynydd?
6. Pa feic sy'n addas i blentyn yn ei arddegau?

Trafodwch:-

Pam ei fod yn beth da, neu ddim yn beth da, i wisgo helmed wrth feicio?

Ffeil-ffaith

Enw:	Sian Daniel
Oed:	10
Arwydd Sêr	Pisces
Hoff fwyd:	Pasta
Cas Fwyd:	Cwstard
Hoff wers:	Cerdd
Hoff Grŵp:	'Girls Aloud'
Hoff Chwaraeon:	Rownderi




Enw:	Steffan Roberts
Oed:	12
Arwydd Sêr	Capricorn
Hoff fwyd:	Byrgers a sglodion
Cas Fwyd:	Seleri
Cas wers:	Mathemateg
Hoff Grŵp:	'Take That'
Hoff Chwaraeon:	Bowlio Deg





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw hoff fwyd Steffan?
2. Pa grŵp yw hoff grŵp Sian?
3. Faint yw oed Sian?
4. Pa arwydd sêr yw Steffan?



Trafodwch:-

Ydych chi'n gallu cyflwyno eich hun?
Cofiwch:-

- oed/ penblwydd
- cartref
- teulu
- hoff a chas fwyd
- hoff grŵp pop

Ffeil-ffaith

Enw:	Sian Daniel
Oed:	10
Arwydd Sêr	Pisces
Hoff fwyd:	Pasta
Cas Fwyd:	Cwstard
Hoff bwnc:	Cerdd
Cas bwnc:	Daearyddiaeth
Hoff Grŵp:	'Girls Aloud'
Cas Fiwsig:	Miwsig Mam a Dad
Hoff Chwaraeon:	Rownderi
Cas Chwaraeon:	Pŵl




Enw:	Steffan Roberts
Oed:	12
Arwydd Sêr	Capricorn
Hoff fwyd:	Byrgers a sglodion
Cas Fwyd:	Seleri
Hoff bwnc:	Technoleg Gwybodaeth
Cas bwnc:	Mathemateg
Hoff Grŵp:	'Take That'
Cas Fiwsig:	Opera
Hoff Chwaraeon:	Bowlio Deg
Cas Chwaraeon:	Golff





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw hoff fwyd Steffan?
2. Pa grŵp yw hoff grŵp Sian ?
3. Faint yw oed Sian?
4. Pa arwydd sêr yw Steffan?
5. Hoff chwaraeon Sian yw_____.
6. Cas fiwsig Steffan yw_____.




Trafodwch:-


Ydych chi'n gallu cyflwyno eich hun?


Cofiwch:-

- oed
- arwydd sêr
- hoff a chas fwyd
- hoff a chas wers
- hoff grŵp pop
- cas fiwsig
- hoff a chas chwaraeon

Edrych ar glawr llyfr









Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy yw awdur y llyfr a phwy wnaeth addasu'r stori ?
2. Ble mae Gwasg Gomer ?
3. Beth yw teitl y stori ?
4. Pa ysgrifen sydd ar y meingefn ?




Trafodwch:-

Oes unrhyw beth yn codi ofn arnoch chi ?

Dywedwch beth sy'n codi ofn arnoch chi ?


Edrych ar glawr llyfr





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy yw awdur y llyfr a phwy wnaeth addasu'r stori ?
2. Ble mae Gwasg Gomer ?
3. Beth yw teitl y stori ?
4. Pa ysgrifen sydd ar y meingefn ?
5. Darllenwch y broliant—beth sy'n wahanol am Plop ?
6. Beth yw'r cwestiwn ar ddiwedd y broliant ?



Trafodwch:-

Oes unrhyw beth yn codi ofn arnoch chi ?

Rhannwch eich profiadau.

PÊL—DROED

TÎMAU CYMYSG



"Na ! Na ! Dydy merched ddim yn ddigon cryf !"

Nic, 16, Caerdydd.

"Wrth gwrs ! Mae merched yn gallu chwarae'n dda iawn !"

Gari , 16, Aberystwyth.

" Dydy merched ddim yn gallu taclo'n ddigon caled !"

John, 14, Aberteifi.

" Yn bendant ! Mae'n bwysig i ni chwarae gyda'n gilydd. "

Dylan, 14, Y Rhyl.

" Mae sgiliau pêl-droed rhai merched yn ardderchog !"


David, 16, Llandysul.





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. O ba dref mae Gari'n dod ?
2. Pa blant sy'n 14eg?
3. Pwy sy'n dweud " Na ! Na ! Dydy merched ddim yn ddigon cryf !" ?
4. Pwy sy'n meddwl fod sgiliau pêl droed rhai merched yn ardderchog ?



Trafodwch:-

Beth yw eich barn chi o ferched a bechgyn yn chwarae pêl droed gyda'i gilydd ?

Dw i ' n

Yn fy marn i....

Efallai.....

Dw i ddim yn credu....

Yn bersonol....

Rydw i ' n cy-

PÊL– DROED
TÎMAU CYMYSG



"Na ! Na ! Dydy merched ddim yn ddigon cryf !"
Nic , 16, Caerdydd.

" Pam lai ?"
Andreas, 15, Llanbed.

"Wrth gwrs ! Mae merched yn gallu chwarae'n dda iawn !"
Gari, 16, Aberystwyth.

" Efallai, ond ddim ar hyn o bryd. Dydy bechgyn ddim yn barod eto !"
Hassan, 15, Tregaron.

" Dydy merched ddim yn gallu taclo'n ddigon caled !"
John, 14, Aberteifi.

" Yn bendant ! Mae'n bwysig i ni chwarae gyda'n gilydd."
Dylan, 14, Y Rhyl.


" Mae sgiliau pêl-droed rhai merched yn ardderchog !"
David, 16, Llandysul.





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. O ba dref mae Gari'n dod ?
2. Pa blant sy'n 14eg ?
3. Pwy sy'n dweud " Na ! Na ! Dydy merched ddim yn ddigon cryf !" ?
4. Beth yw barn Dylan ?
5. Pwy sy'n meddwl fod sgiliau pêl droed rhai merched yn ardderchog ?
6. Ydych chi'n gallu rhoi enwau cartrefi'r plant yn nhrefn yr wyddor ?



Trafodwch:-

Beth yw eich barn chi o ferched a bechgyn yn chwarae pêl droed gyda'i gilydd ?

Dw i ' n

Yn fy marn i....

Efallai.....



Dw i ddim yn credu....


Yn bersonol....

Rydw i ' n cy-

Cerdyn Post

Annwyl Bwgan a Cnotiog

Mae'r haul yn  ac mae'r  yn las. Rydw i'n mwynhau'n  adwy yma. Rydw i wedi bod ar  ac mewn  fach uwchben y traeth. Rydw i wedi bwyta llawer hefyd –  ,  ,  a lot ofnadwy o  . Yfory, rydw i'n mynd i  . Efallai y bydda' i'n gweld  neu  neu hyd yn oed  HELP! Rydw i'n  ymlaen at eich gweld chi eich  . Mi fyddaf i'n dod â  i chi.



mawr


Lili xx





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy dderbyniodd y cerdyn post?
2. Beth oedd yr haul yn ei wneud?
3. Pa fath o fwyd gwnaeth hi fwyta ?
4. Pa dri creadur oedd yn codi ofn arni?




Trafodwch:-

Sut ydych chi'n treulio eich diwrnod ar y traeth?

Beth ydych chi'n ei wneud?

Cerdyn Post

Annwyl Bwgan a Cnotiog

Mae'r haul yn  ac mae'r  yn las. Rydw i'n mwynhau'n  adwy yma. Rydw i wedi bod ar  ac mewn  fach uwchben y traeth. Rydw i wedi bwyta llawer hefyd –  ,  ,  a lot ofnadwy o  . Yfory, rydw i'n mynd i  . Efallai y bydda' i'n gweld  neu  neu hyd yn oed  HELP! Rydw i'n  ymlaen at eich gweld chi eich  . Mi fyddaf i'n dod â  i chi.

mawr


Lili xx





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy dderbyniodd y cerdyn post?
2. Beth oedd yr haul yn ei wneud?
3. Pa fath o fwyd gwnaeth hi fwyta ?
4. Sut deithiodd Lili uwchben y traeth ?
5. Beth arall wnaeth hi ar ei gwyliau ?
6. Pa dri creadur oedd yn codi ofn arni ?



Trafodwch:-

Sut ydych chi'n treulio eich diwrnod ar y traeth?

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sŵn

Dw i weithiau yn sibrwd
Dw i weithiau yn gweiddi

Dw i weithiau yn siarad
Dw i weithiau yn sisial

Dw i weithiau yn mwmian
Dw i weithiau yn sgrechian

Dw i weithiau yn crïo
Dw i weithiau yn bloeddio

Dw i weithiau yn gwichian
Dw i weithiau'n brygowthan

Dw i weithiau yn chwythu
Dw i weithiau yn canu
Dw i weithiau yn chwyrnu

Ond dw i byth yn dawel!

Tudur Dylan





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth mae'r plentyn yn ei wneud ym mhennill pedwar ?
2. Pa eiriau sy'n cael eu hail adrodd o hyd yn y gerdd ?
3. Mae yna ddau air croes eu hystyr ym mhennill un—beth ydynt ?
4. Pa frawddeg sy'n dod o flaen y marc (!) ?



Trafodwch:-

Pa synau glywch chi yn y pwll nofio ?

Pa synau glywch chi yn y llyfrgell ?

Sŵn

Dw i weithiau yn sibrwd
Dw i weithiau yn gweiddi

Dw i weithiau yn siarad
Dw i weithiau yn sisial

Dw i weithiau yn mwmian
Dw i weithiau yn sgrechian

Dw i weithiau yn crïo
Dw i weithiau yn bloeddio

Dw i weithiau yn gwichian
Dw i weithiau'n brygowthan

Dw i weithiau yn chwythu
Dw i weithiau yn canu
Dw i weithiau yn chwyrnu

Ond dw i byth yn dawel!

Tudur Dylan





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Beth mae'r plentyn yn ei wneud ym mhennill pedwar ?
2. Pa eiriau sy'n cael eu hail adrodd o hyd yn y gerdd ?
3. Mae yna ddau air croes eu hystyr ym mhennill un—beth ydynt ?
4. Pa eiriau sy'n odli ?
5. Pa frawddeg sy'n dod o flaen y marc (!) ?
6. Pa ferf sydd â thri sillaf ynddi ?



Trafodwch:-

Pa synau glywch chi yn y pwll nofio ?

Pa synau glywch chi yn y llyfrgell ?




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw'r ynys sydd yng ngogledd Cymru ?
2. Pa sir ydyn ni'n byw ynddi ?
3. Pa liw yw sir Wrecsam ?
4. Enwch y sir i'r gogledd o Geredigion.

Trafodwch:-

Beth ydych chi'n ei wybod am eich ardal ?




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw'r ynys sydd yng ngogledd Cymru ?
2. Pa sir ydyn ni'n byw ynddi ?
3. Pa liw yw sir Wrecsam ?
4. Enwch y sir i'r gogledd o Geredigion.
5. Sut maen nhw'n dangos fod un sir yn gorffen a'r llall yn dechrau ?
6. Pa siroedd sy'n ffinio gyda Lloegr ?

Trafodwch:-

Beth ydych chi'n ei wybod am eich ardal ?

WINI WIBION
































Stori: Caryl Lewis
Lluniau: Rod Knipping




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.



1. Pa gymeriadau sydd yn y stori ?
2. Beth mae Wini yn ei wneud ar nos Fercher a phrynhawn dydd Sadwrn ?
3. Beth mae Poli eisiau ei wneud ar nos Fawrth ?
4. I ble mae Wini'n mynd ar fore Sadwrn ?
5. Pa noson sydd yn rhydd gyda Wini ?
6. Pa glwb yw'r clwb gorau erioed ?







Trafodwch:-

Sgwrsiwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud ar ôl ysgol neu yn ystod y penwythnos.

O Dan y Dail

Roedd gan Huw lawer o goed yn yr ardd. Bob Hydref byddai wrth ei fodd yn gwylio'r dail yn newid lliw ac yn disgyn o'r coed. Roedd Huw'n casglu'r concyrs oddi ar y llawr dan y goeden ac yn eu rhannu gyda'i ffrindiau.

Un diwrnod wrth hel y concyrs clywodd Huw sŵn snwffian yn dod o'r dail. Gwrandawodd yn ofalus. Roedd rhywbeth yn symud o dan y dail crin. Rhywbeth bach gyda thrwyn smwt, yn swatio'n barod i gysgu dros y Gaeaf.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd gan Huw yn ei ardd?
2. Pa amser o'r flwyddyn y mae'r dail yn troi eu lliw?
3. Beth fyddai Huw yn hoffi'i wneud gyda'r concyrs?
4. Beth ydych chi'n ei feddwl oedd yn cuddio o dan y dail?



Trafodwch:-

Beth arall sydd yn digwydd yn ystod tymor yr Hydref?

O Dan y Dail

Roedd gan Huw lawer o goed yn yr ardd. Bob Hydref byddai wrth ei fodd yn gwylio'r dail yn newid lliw ac yn disgyn o'r coed. Roedd Huw'n casglu'r concyrs oddi ar y llawr dan y goeden ac yn eu rhannu gyda'i ffrindiau. Byddai'n rhwbio'r concyrs browngoch nes eu bod yn sgleinio.

Un diwrnod wrth hel y concyrs clywodd Huw sŵn snwffian yn dod o'r dail. Gwrandawodd yn ofalus. Roedd rhywbeth yn symud o dan y dail crin. Rhywbeth bach gyda thrwyn smwt, yn swatio'n barod i gysgu dros y Gaeaf.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd gan Huw yn ei ardd?
2. Pa amser o'r flwyddyn y mae'r dail yn troi eu lliw?
3. Ble oedd Huw yn dod o hyd i'r concyrs ?
4. Beth fyddai Huw yn hoffi'i wneud gyda'r concyrs?
5. Pa liw oedd y concyrs ?
6. Beth ydych chi'n ei feddwl oedd yn cuddio o dan y dail?



Trafodwch:-

Beth arall sydd yn digwydd yn ystod tymor yr Hydref?

Llys Matholwch,
Dulyn,
Iwerddon.

Dydd Mawrth

Annwyl Bendigeidfran,

Dim ond gair sydyn i ddweud wrthot am yr hyn sy'n digwydd i mi yma yn yr Iwerddon. Daeth teulu Matholwch i wybod am yr hyn wnaeth Efnisien i'r ceffylau. Penderfynon nhw fy nghosbi, felly dwi wedi bod yn gweithio yn y gegin ers amser maith.

Mae drudwen fach wedi dod yn ffrind da i mi. Rwy'n siarad gyda hi a dwi wedi dweud wrthi amdanat. Rwy'n gobeithio y bydd hi'n gallu dod o hyd i ti ac y cei di'r llythyr yma'n ddiogel.

Plis, wyt ti'n fodlon dod i'm hachub? Dwi'n teimlo'n unig, ofnus a thrist.

Cariad mawr,
Branwen
xxx



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa fath o destun rydych chi newydd ei ddarllen?
2. Ble oedd Branwen pan aeth hi ati i ysgrifennu?
3. Pam oedd Branwen wedi ysgrifennu'r llythyr?
4. Sut oedd hi'n teimlo?



Trafodwch:-

Ydych chi wedi helpu rhywun yn ddiweddar?
Beth wnaethoch chi?

Llys Matholwch,
Dulyn,
Iwerddon.

Dydd Mawrth

Annwyl Bendigeidfran,

Dim ond gair sydyn i ddweud wrthot am yr hyn sy'n digwydd i mi yma yn yr Iwerddon.

Dwi bron â thorri fy nghalon. Daeth teulu Matholwch i wybod am yr hyn wnaeth Efnisien i'r ceffylau. Penderfynon nhw fy nghosbi, felly dwi wedi bod yn gweithio yn y gegin ers amser maith. Mae'r cigydd yn dod a rhoi bonclust i mi bob dydd. Aw!

Diolch fyth fod drudwen fach yn dod i'r ffenest bob dydd i gadw cwmni i mi. Rwy'n siarad gyda hi a dwi wedi dweud wrthi amdanat.

Rwy'n gobeithio y bydd hi'n gallu dod o hyd i ti ac y cei di'r llythyr yma'n ddiogel.


Plis, wyt ti'n fodlon dod i'm hachub? Mae hiraeth ofnadwy arna i am Gymru. Dwi'n teimlo'n unig, ofnus a thrist.

Cariad mawr,
Branwen



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa fath o destun ydych chi newydd ei ddarllen?
2. Ble oedd Branwen pan aeth hi ati i ysgrifennu?
3. Pam oedd Branwen yn torri ei chalon?
4. Pwy oedd ei ffrind hi?
5. Pam oedd Branwen wedi ysgrifennu'r llythyr?
6. Sut oedd hi'n teimlo?



Trafodwch:-

Ydych chi wedi helpu rhywun yn ddiweddar?
Beth wnaethoch chi?
Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl helpu?

ribidiriwbob

1. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig ar Blaned Ribidiriwbob. Roedd Concyrs yn y jyngl yn chwilio am y Blodyn Crwngoch, sy'n blodeuo unwaith bob can mlynedd. A heddiw oedd y diwrnod mawr ...

2. Unrhyw olwg o'r blodyn eto?





3. Dyma'r man cywir, yn ôl y map, ond ble mae'r blodyn?

4. Efallai ei fod yn cuddio y tu ôl i'r peth coch, crwn yna?



5. Peth coch, crwn?



6. Dyna fo – dw i wedi darganfod y Blodyn Crwngoch o'r diwedd!

7. Beth wyt ti'n feddwl? Fi welodd o gynta'!





8. Mewn dim, roedd Concyrs yn barod efo'i gamera – ond ar ôl awr, doedd y blodyn ddim wedi agor.

9. Fedra i ddim disgwyl trwy'r dydd – dw i am gael cinio.





10. Ond roedd yna rywbeth arall yn y jyngl a oedd eisiau cinio ...

11. Hei!





12. Pawb yn barod? Mae o ar fin agor – unrhyw eiliad rwan!

13. Rho hwnna'n ôl!





14. BDWMFFF!

15. CLONC!



16. Wff!



17. PA-DWFF!!!

18. Diolch i afal y Brenin, roedd Concyrs wedi methu'r blodyn yn agor.





19. Hen dro – ond fe gei di gyfle arall mewn can mlynedd!



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.



1. Pa flodyn oedd Concyrs yn chwilio amdano ?
2. Beth oedd gan Concyrs i'w helpu i ddod o hyd i'r blodyn ?
3. Am faint o amser arhosodd Concyrs i ddisgwyl i'r blodyn agor ?
4. Pa mor aml oedd y blodyn Crwngoch yn blodeuo ?
5. Ble oedd y blodyn Crwngoch yn cuddio ?
6. Beth oedd gan Concyrs i'w fwyta amser cinio ?



Trafodwch:-

- Sut ardd sydd gyda chi ?
- Beth sydd gyda chi yno ?
- Beth ydych chi'n ei wneud yn yr ardd ?

Geiriadur

a b c ch d dd e f ff g ng h i j k l ll m n o **p** ph r rh s t th u w y

pais *hon enw* (**peisiau**) dilledyn y mae merched yn ei wisgo dan sgert neu ffrog PETTICOAT

pâl[1] *hon enw* (**palau**) erfyn â choes hir a llafn byr, llydan ar ei ben ar gyfer palu; rhaw SPADE

pâl[2] *hwn enw* (**palod**) aderyn y môr sydd â phig fawr liwgar PUFFIN



palas *hwn enw* (**palasau**) tŷ mawr, hardd lle mae brenin, brenhines neu rywun pwysig iawn yn byw PALACE

palfalu *berfenw* chwilio am rywbeth na allwch ei weld, trwy deimlo amdano TO GROPE

palmant *hwn enw* (**palmantau**) llwybr i bobl gerdded arno bob ochr i stryd PAVEMENT

palmwydden *hon enw* (**palmwydd**) coeden â choes hir, dail llydan ond dim canghennau, sy'n tyfu mewn gwledydd poeth PALM (TREE)



Daeth y wybodaeth yma o Geiriadur Cynradd Gomer.

palu *berfenw* gwneud twll yn y ddaear trwy symud pridd â rhaw/pâl TO DIG

pallu *berfenw* gwrthod gwneud *Mae Emrys yn pallu gwrando; mae'r car yn pallu dechrau.* (WILL NOT); TO REFUSE

pan *cysylltair* yr amser pryd *Doedd neb gartref pan alwodd.* WHEN

panasen *hon enw* (**pannas**) llysieuyn gardd o liw melyn golau ac sydd â blas melys PARSNIP


pancosen *hon enw* (**pancos**) crempog PANCAKE

panel *hwn enw* (**paneli**) darn hir gwastad o bren neu fetel sy'n rhan o ddrws neu ddodrefnyn PANEL

pannas *hyn enw* mwy nag un banasen (**panasen**)

pansi *hwn enw* blodyn bach â phetalau lliwgar llydan PANSY

pantomeim *hwn enw* math o ddrama ddigrif a dwl sy'n arfer cael ei pherfformio adeg y Nadolig PANTOMIME




pantri *hwn enw* ystafell fach lle y mae bwyd yn cael ei gadw PANTRY



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa lythyren sy'n dod o flaen **j** ?
2. Enwch y llythrennau dwbl.
3. Pa air sy'n dod gyntaf–

   pansi neu ***pantri*** ?
4. Beth yw lluosog pancosen ?



Trafodwch:-

Pwy sy'n gallu adrodd neu ganu llythrennau'r Wyddor?

Geiriadur

a b c ch d dd e f ff g ng h i j k l ll m n o **p** ph r rh s t th u w y

pais *hon enw* (**peisiau**) dilledyn y mae merched yn ei wisgo dan sgert neu ffrog PETTICOAT

pâl[1] *hon enw* (**palau**) erfyn â choes hir a llafn byr, llydan ar ei ben ar gyfer palu; rhaw SPADE

pâl[2] *hwn enw* (**palod**) aderyn y môr sydd â phig fawr liwgar PUFFIN



palas *hwn enw* (**palasau**) tŷ mawr, hardd lle mae brenin, brenhines neu rywun pwysig iawn yn byw PALACE

palfalu *berfenw* chwilio am rywbeth na allwch ei weld, trwy deimlo amdano TO GROPE

palmant *hwn enw* (**palmantau**) llwybr i bobl gerdded arno bob ochr i stryd PAVEMENT

palmwydden *hon enw* (**palmwydd**) coeden â choes hir, dail llydan ond dim canghennau, sy'n tyfu mewn gwledydd poeth PALM (TREE)



Daeth y wybodaeth yma o Geiriadur Cynradd Gomer.

palu *berfenw* gwneud twll yn y ddaear trwy symud pridd â rhaw/pâl TO DIG

pallu *berfenw* gwrthod gwneud *Mae Emrys yn pallu gwrando; mae'r car yn pallu dechrau.* (WILL NOT); TO REFUSE

pan *cysylltair* yr amser pryd *Doedd neb gartref pan alwodd.* WHEN

panasen *hon enw* (**pannas**) llysieuyn gardd o liw melyn golau ac sydd â blas melys PARSNIP


pancosen *hon enw* (**pancos**) crempog PANCAKE

panel *hwn enw* (**paneli**) darn hir gwastad o bren neu fetel sy'n rhan o ddrws neu ddodrefnyn PANEL

pannas *hyn enw* mwy nag un banasen (**panasen**)

pansi *hwn enw* blodyn bach â phetalau lliwgar llydan PANSY

pantomeim *hwn enw* math o ddrama ddigrif a dwl sy'n arfer cael ei pherfformio adeg y Nadolig PANTOMIME




pantri *hwn enw* ystafell fach lle y mae bwyd yn cael ei gadw PANTRY



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa lythyren sy'n dod o flaen **j** ?
2. Enwch y llythrennau dwbl.
3. Pa air sy'n dod gyntaf- ***pansi*** neu ***pantri*** ?
4. Beth yw lluosog pancosen ?
5. Ife ***enw*** neu ***berfenw*** yw pili-pala ?
6. Beth yw ystyr y gair palu?



Trafodwch:-

Pwy sy'n gallu adrodd neu ganu llythrennau'r Wyddor?

Amserwch eich gilydd yn eu hadrodd.

Marcio Gwaith Dosbarth

Os oedd Rhys yn copïo Mared,
a Mared yn copïo Mer,
a Mer yn copïo Meirion,
a Meirion yn copïo Ger;

a Ger yn copïo Manon,
a Manon yn copïo Prys,
a Prys yn copïo Rhydian,
a Rhydian yn copïo Rhys;

mae gen i un cwestiwn syml
i ofyn i'r grŵp bach hwn:
gwaith pwy oedd hwn ar y cychwyn
o amgylch eich bwrdd bach crwn?


Ceri Wyn Jones





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw teitl y gerdd ?
2. Pwy yw'r bardd ?
3. Pa eiriau sy'n odli yn y penillion ?
4. Pa gwestiwn oedd yr athrawes eisiau gofyn i'r plant ?



Trafodwch:-

Pa wers yw eich hoff a chas wers yn yr ysgol ? Pam ?

Marcio Gwaith Dosbarth

Os oedd Rhys yn copïo Mared,
a Mared yn copïo Mer,
a Mer yn copïo Meirion,
a Meirion yn copïo Ger;

a Ger yn copïo Manon,
a Manon yn copïo Prys,
a Prys yn copïo Rhydian,
a Rhydian yn copïo Rhys;

mae gen i un cwestiwn syml
i ofyn i'r grŵp bach hwn:
gwaith pwy oedd hwn ar y cychwyn
o amgylch eich bwrdd bach crwn?


Ceri Wyn Jones





Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw teitl y gerdd ?
2. Pwy yw'r bardd ?
3. Faint o blant oedd yn copïo ei gilydd ?
4. Pa eiriau sy'n odli yn y penillion ?
5. Pwy oedd yn copïo Rhydian ?
6. Pa gwestiwn oedd yr athrawes eisiau gofyn i'r plant ?



Trafodwch:-

Pa wers yw eich hoff a chas wers yn yr ysgol ? Pam ?

Dyddiadur Lisa



Dydd Sadwrn

Cyrraedd y gwesty'n ddiogel o'r diwedd. Collodd Dad ei waled yn y maes awyr! Sôn am banig! Roedd Dad wrth ei fodd pan welodd e'r bachgen ifanc yn dod â'r waled iddo. Gwyliais i ffilm ar yr awyren. Wedyn, cysgais i'n drwm!

Dydd Sul

Ymlacio wrth y pwll nofio trwy'r dydd. Roedd yr haul yn boeth iawn. Rhoddais i hufen factor 8 ar fy nghroen a dydw i ddim wedi llosgi. Gret! Mae'n gas gen i groen coch.
Hoffais i'r disgo heno. Dawnsiais i trwy'r nos!
Rydw i wedi blino!



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1.Beth gollodd tad Lisa yn y maes awyr?

2.Pwy ddaeth â'r waled yn ôl i'w thad?

3.I ble aeth Lisa ar y nos Sul?

4.Beth sy'n gas gan Lisa ?



Trafodwch:-

Ble ydych chi wedi bod ar eich gwyliau ?
Sut aethoch chi yno ?
Pwy aeth gyda chi ?
Beth wnaethoch chi yno ?

Dyddiadur Lisa



Dydd Sadwrn

Cyrraedd y gwesty'n ddiogel o'r diwedd. Collodd Dad ei waled yn y maes awyr! Sôn am banig! Roedd Dad wrth ei fodd pan welodd e'r bachgen ifanc yn dod â'r waled iddo. Gwyliais i ffilm ar yr awyren. Wedyn, cysgais i'n drwm!

Dydd Sul

Ymlacio wrth y pwll nofio trwy'r dydd. Roedd yr haul yn boeth iawn. Rhoddais i hufen factor 8 ar fy nghroen a dydw i ddim wedi llosgi. Gret! Mae'n gas gen i groen coch. Hoffais i'r disgo heno. Dawnsiais i trwy'r nos! Rydw i wedi blino!


Dydd Llun

Mynd i lan y môr heddiw. Aeth Dad a Tom i sgwba-ddeifio. Es i ddim! Mae'n gas gen i roi fy wyneb yn y dŵr! Fyddwn i **BYTH** yn mynd o dan y dŵr! Aethon ni i hwylio yn y prynhawn mewn cwch bach- rhy fach! Roeddwn i'n ofnus iawn!



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth gollodd tad Lisa yn y maes awyr ?
2. Pwy ddaeth â'r waled yn ôl ?
3. I ble aeth Lisa ar y nos Sul ?
4. Beth sy'n gas gan Lisa ?
5. Pwy aeth i sgwba-ddeifio ?
6. Sut oedd hi'n teimlo yn y cwch hwylio ?



Trafodwch:-

Ble ydych chi wedi bod ar eich gwyliau?
Sut aethoch chi yno?
Pwy aeth gyda chi?
Beth wnaethoch chi yno?
A ddigwyddodd rhywbeth anturus/cyffrous i chi?

Yr Hen Gastell

Roedd dosbarth Cai yn mynd ar drip ysgol i hen,hen gastell.

"Hwre !" gwaeddodd Cai,"dw i wrth fy modd yn dysgu am filwyr,ac mae gen i gastell lego adre!"

Ar ddiwrnod y trip, Cai oedd y cyntaf ar y bws. Eisteddodd yn y sêt flaen.

Ar ôl cyrraedd, rhuthrodd Cai i fyny'r grisiau carreg. Roedd tu mewn y castell yn dywyll iawn. Teimlodd Cai rywbeth blewog yn rhwbio'n erbyn ei goesau.


"Wa!!" bloeddiodd Cai.

Rhuthrodd allan o'r castell ac yn ôl i'r bws.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ble'r oedd dosbarth Cai yn mynd ar eu trip?
2. Pam fod Cai wrth ei fodd?
3. Beth oedd gan Cai adref?
4. Pam fod Cai'n eistedd yn sêt flaen y bws?



Trafodwch:-

Beth oedd y "peth blewog" wnaeth rwbio'n erbyn coesau Cai? Disgrifiwch e.

Yr Hen Gastell

Roedd dosbarth Cai yn mynd ar drip ysgol i hen,hen gastell.

"Hwre !" gwaeddodd Cai,"dw i wrth fy modd yn dysgu am filwyr,ac mae gen i gastell lego adre!"

Ar ddiwrnod y trip,Cai oedd y cyntaf ar y bws. Eisteddodd yn y sêt flaen.

Ar ôl cyrraedd, rhuthrodd Cai i fyny'r grisiau cerrig. Roedd tu mewn y castell yn dywyll iawn. Teimlodd Cai rywbeth blewog yn rhwbio'n erbyn ei goesau.

"Wa!!" bloeddiodd Cai.

Rhuthrodd allan o'r castell ac yn ôl i'r bws.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. I ble'r oedd dosbarth Cai yn mynd ar eu trip?
2. Pam fod Cai wrth ei fodd?
3. Beth oedd gan Cai adref?
4. Pam fod Cai'n eistedd yn sêt flaen y bws?
5. Beth ydych chi'n credu oedd wedi codi ofn ar Cai?



Trafodwch:-

Beth oedd y "peth blewog" wnaeth rwbio'n erbyn coesau Cai? Disgrifiwch e.

CIPYN HWYL



Daeth y wybodaeth yma o gylchgrawn Cip.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

Arbrawf

1. Faint o halen sydd ei angen ?
2. Sut fath o dywydd yw hi ?
3. Beth sy'n gwneud y sŵn chwyrnu y tu allan i'r ffenest ?
4. Pa mor aml sydd angen edrych ar y cwpanau yn y rhewgell ?



Trafodwch:-

Pa arbrofion ydych chi wedi eu gwneud yn yr ysgol ?

Dywedwch beth ddigwyddodd.

CIPYN HWYL



Daeth y wybodaeth yma o'r cylchgrawn Cip.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

Arbrawf

1. Faint o halen sydd ei angen ?
2. Sut fath o dywydd yw hi ?
3. Beth sy'n gwneud y sŵn chwyrnu y tu allan i'r ffenest ?
4. Beth mae'r lori yn ei wasgaru ar yr hewl ?
5. Sawl cwpan sy'n cael ei roi yn y rhewgell ?
6. Pa mor aml sydd angen edrych ar y cwpanau yn y rhewgell ?



Trafodwch:-

Pa arbrofion ydych chi wedi eu gwneud yn yr ysgol ?

Dywedwch beth ddigwyddodd.

Nicole Cooke

Enw llawn: Nicole Cooke

Dyddiad geni: 13 Ebrill 1983

Byw: Yn yr Eidal

Teulu: Mam (Denise), Dad (Tony)
a brawd o'r enw Craig.
Mae Craig yn beilot.



Addysg: Ysgol Gyfun Brynteg

Hoff fwyd: unrhyw fath o
fwyd Eidalaidd

Hoff ddiod: Smwddi aeron


Diddordebau: pob math o chwaraeon —
cerdded, rhwyfo,
gymnasteg, tennis a mwy!

Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn CIP.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ba ysgol aeth Nicole?
2. Beth yw enw ei brawd hi?
3. Ble mae hi'n byw ar hyn o bryd?
4. Pa fath o bethau mae hi'n hoffi eu gwneud yn ei hamser hamdden?



Trafodwch:-

Fyddech chi'n hoffi cymryd rhan mewn ras feicio? Pam?

Nicole Cooke


Enw llawn: Nicole Cooke

Dyddiad geni: 13 Ebrill 1983

Magu: Yn Wick ym Mro Morgannwg

Byw: Yn yr Eidal (ac yn siarad Eidaleg yn rhugl erbyn hyn)

Teulu: Mam (Denise), Dad (Tony) a brawd o'r enw Craig. Mae Craig yn beilot.



Taldra: 5'6"

Pwysau: 9 stôn

Maint esgidiau: 7

Addysg: Ysgol Gyfun Brynteg

Hoff fwyd: unrhyw fath o fwyd Eidalaidd

Hoff ddiod: Smwddi aeron

Diddordebau: pob math o chwaraeon—cerdded, rhwyfo, gymnasteg, tennis a mwy!

Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn CIP.

Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw taldra Nicole?
2. I ba ysgol aeth hi?
3. Beth yw gwaith ei brawd hi?
4. Ble mae hi'n byw ar hyn o bryd?
5. Ym mha flwyddyn gafodd hi ei geni?
6. Pa fath o bethau mae hi'n hoffi eu gwneud yn ei hamser hamdden?

Trafodwch:-

Fyddech chi'n hoffi cymryd rhan mewn ras feicio? Pam?

Y Beic Mynydd



Cafodd John feic mynydd yn anrheg gan ei dad. Aeth John â'r beic i'r cae tu ôl y tŷ. Roedd llawer o bwdel yn y cae. Doedd y cae ddim yn lle hawdd i reidio beic, ond roedd gan y beic newydd olwynion llydan, gyda grip dda. Reidiodd John y beic i fyny i dop y cae. Yna gwelodd Rhys yn rhedeg i fyny ato.

Suddodd calon John.

"Dere â'r beic 'na i fi, i fi gael dangos i ti sut mae ei reidio!" meddai Rhys yn uchel.

Neidiodd Rhys ar y beic a chychwyn reidio'n wyllt. Yn sydyn, llithrodd y beic yn y pwdel a chwympodd Rhys ar ei wyneb i'r baw. Roedd yn frwnt fel mochyn mewn twlc!



"O! Fel yna mae reido beic, ife Rhys?"



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Gan bwy gafodd John y beic?
2. Pam aeth John i'r cae?
3. Beth oedd yn arbennig am olwynion y beic?
4. Ydych chi'n meddwl bod John a Rhys yn ffrindiau? Pam ydych chi'n credu hyn?



Trafodwch:-

Beth ydych chi'n credu ddigwyddodd wedyn yn y stori?

Y Beic Mynydd



Cafodd John feic mynydd yn anrheg gan ei dad. Aeth John â'r beic i'r cae tu ôl y tŷ. Roedd llawer o bwdel yn y cae. Doedd y cae ddim yn lle hawdd i reidio beic, ond roedd gan y beic newydd olwynion llydan, gyda grip dda. Reidiodd John y beic i fyny i dop y cae. Yna gwelodd Rhys yn rhedeg i fyny ato.

Suddodd calon John.

"Dere â'r beic 'na i fi, i fi gael dangos i ti sut mae ei reidio!" meddai Rhys yn uchel.

Neidiodd Rhys ar y beic a chychwyn reidio'n wyllt. Yn



sydyn, llithrodd y beic yn y pwdel a disgynnodd Rhys ar ei wyneb i'r baw. Roedd yn frwnt fel mochyn mewn twlc!

"O! Fel yna mae reido beic, ife Rhys?"



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Gan bwy gafodd John y beic?
2. Pam aeth John i'r cae?
3. Beth oedd yn arbennig am olwynion y beic?
4. Ydych chi'n meddwl bod John a Rhys yn ffrindiau? Pam ydych chi'n credu hyn?
5. Pam ydych chi'n meddwl gwnaeth y beic lithro yn y baw?
6. Pam oedd John yn chwerthin ?



Trafodwch:-

Beth ydych chi'n credu ddigwyddodd wedyn yn y stori?

Gelert

Gelert oedd ci hela Llywelyn Fawr ac roedden nhw'n ffrindiau pennaf. Pan dyfodd Llywelyn yn ddyn priododd Siwan. Roedd Gelert yn rhan o'r teulu. Roedd Gelert wrth ei fodd yn edrych ar ôl Dafydd, mab Llywelyn.

Ond un diwrnod, pan ddaeth Llywelyn adref o helfa, aeth i ystafell Dafydd a gweld fod gwely bach ei fab wedi torri. Gwelodd waed ar geg Gelert. Lladdodd Llywelyn y ci gyda'i gleddyf ar unwaith, am ei fod yn meddwl ei fod wedi lladd ei fab. Ond yna clywodd Llywelyn sŵn. O dan y gwely roedd Dafydd bach a chorff blaidd anferth oedd wedi ceisio ei ladd. Gelert oedd wedi achub bywyd Dafydd.

Roedd Llywelyn yn drist iawn, ond gwnaeth yn siwr fod pawb yn gwybod am hanes y cyfaill mwyaf ffyddlon a gafodd y tywysog erioed.



Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn CIP.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd perchennog Gelert?
2. Beth oedd enw mab Llywelyn a Siwan?
3. Pa fath o anifail geisiodd ladd y babi?
4. Ydych chi'n gallu meddwl am air arall am ***cyfaill***?



Trafodwch:-

- Oes anifail anwes gyda chi?
- Pa fath o anifail ydyw?
- Sut ydych chi'n gofalu amdano?
- Cofiwch drafod y pwyntiau canlynol:

  golwg / oed / bwyd / cartref / gofal / rhywbeth doniol neu anghyffredin

Gelert

Gelert oedd hoff gi hela Llywelyn Fawr ac roedden nhw'n ffrindiau pennaf. Pan dyfodd Llywelyn yn ddyn a phriodi Siwan, roedd Gelert yn rhan o'r teulu, ac roedd e wrth ei fodd yn gwarchod Dafydd, mab ei feistr.

Ond un diwrnod, pan ddaeth Llywelyn adref o'r helfa, aeth i ystafell Dafydd a gweld fod gwely bach ei fab wedi torri ac roedd gwaed ar geg Gelert. Lladdodd Llywelyn y ci gyda'i gleddyf, am ei fod yn meddwl ei fod wedi lladd ei fabi. Ond wrth i Gelert farw, clywodd Llywelyn gri. O dan y gwely roedd Dafydd bach, a chorff blaidd anferth oedd wedi ceisio ei ladd gerllaw. Gelert oedd wedi achub bywyd Dafydd.

Roedd Llywelyn yn drist iawn, ond gwnaeth yn siwr fod Dafydd yn gofalu am gŵn bach Gelert a bod pawb yn gwybod am hanes y cyfaill mwyaf ffyddlon a gafodd y tywysog erioed.



- Cafodd stori Gelert ei hanimeiddio am y tro cyntaf erioed gan gwmni Griffilms o Gaernarfon.
- Cafodd y ffilm ei dangos am y tro cyntaf ar S4C Nadolig 2007.
- Dechreuwyd trafod y syniad ym 1999.
- Cymerodd y broses o'r dechrau i'r diwedd 8 mlynedd.
- Roedd deg animeiddiwr wedi gweithio ar y lluniau.

Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn CIP.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd perchennog Gelert?
2. Beth oedd enw mab Llywelyn a Siwan?
3. Pa fath o anifail geisiodd ladd y babi?
4. Pa gwmni sydd wedi animeiddio'r ffilm?
5. Sawl animeiddiwr wnaeth weithio ar y lluniau?
6. Faint o amser gymerodd y broses, o'r dechrau i'r diwedd, i greu'r ffilm?




Trafodwch:-

- Oes anifail anwes gyda chi?
- Pa fath o anifail ydyw?
- Sut ydych chi'n gofalu amdano?
- Cofiwch drafod y pwyntiau canlynol:

golwg / oed / bwyd / cartref / gofal / rhywbeth doniol neu anghyffredin

Angharad Tomos

Enw: Angharad Tomos
Dyddiad geni: 19 Gorffennaf 1958
Gwaith: Ysgrifennu
Hoff bethau: Teithio a threulio amser yn yr ardd
Cas bethau: bwlis a marsipan





Helo! Fy enw i yw Angharad Tomos a fi wnaeth greu Gwlad y Rwla.


Mae gwrach fach ddireidus o'r enw Rwdlan yn byw yng Ngwlad y Rwla gyda nifer o'i ffrindiau. Rala Rwdins, Mursen y gath a'r Dewin Dwl yw rhai ohonynt.

Pan rydw i am fynd i Wlad y Rwla rydw i'n eistedd o dan fy ymbarél glas â chymylau arni. Yna rydw i'n hoffi dychymygu sut mae Rala Rwdins yn teimlo wrth deithio drwy'r awyr ar ei hysgub.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw hoff bethau Angharad Tomos?
2. Beth yw ei chas bethau?
3. Pwy sy'n byw yng Ngwlad y Rwla?
4. Pa fath o wrach yw Rwdlan?




Trafodwch:-

Pe baech chi'n cael y cyfle i gwrdd â'r awdures, Angharad Tomos, pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddi?

Angharad Tomos

Enw: Angharad Tomos
Dyddiad geni: 19 Gorffennaf 1958
Cartref: Penygroes, Dyffryn Nantlle
Gwaith: Ysgrifennu
Hoff bethau: Teithio a threulio amser yn yr ardd
Cas bethau: bwlis a marsipan





Helo! Fy enw i yw Angharad Tomos a fi wnaeth greu Gwlad y Rwla.

Mae gwrach fach ddireidus o'r enw Rwdlan yn byw yng Ngwlad y Rwla gyda nifer o'i ffrindiau gan gynnwys Rala Rwdins, Mursen y gath, Y Dewin Dwl a llawer mwy.

Pan rydw i am fynd i Wlad y Rwla rydw i'n eistedd o dan fy ymbarél glas â chymylau arni. Yna rydw i'n dychymygu sut mae Rala Rwdins yn teimlo wrth deithio drwy'r awyr ar ei hysgub. Rydw i'n medru mynd i bob math o lefydd a chael pob math o anturiaethau a dyna yw dechrau'r rhan fwyaf o'r storïau.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Ym mhle mae'r awdures yn byw?
2. Beth yw hoff bethau Angharad Tomos?
3. Beth yw ei chas bethau?
4. Pwy sy'n byw yng Ngwlad y Rwla?
5. Pa fath o wrach yw Rwdlan?
6. Sut mae Angharad Tomos yn mynd i Wlad y Rwla?



Trafodwch:-

Pe baech chi'n cael y cyfle i gwrdd â'r awdures, Angharad Tomos, pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddi?

Yr Wyddfa



Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd Ifan a'i ddad-cu am fynd am dro i ben yr Wyddfa. Roedden nhw wedi gwisgo esgidiau cerdded ac roedd ganddyn nhw got law yr un. Yn ei fag roedd gan Ifan ddigon o frechdanau. Roedd Pero'r ci yn mynd gyda nhw hefyd. Wedi cerdded a chwysu gwaeddodd Dad-cu,

"'Co fe—y copa !"

Ar y ffordd i lawr daeth niwl trwchus iawn a doedd Ifan a'i Ddad-cu ddim yn medru gweld y llwybr. Roedd Ifan yn oer, yn wlyb ac ofnus. Daeth Pero i gerdded wrth ymyl Ifan, a chyn bo hir roedden nhw yn ôl ar y llwybr yn ddiogel.


"Diolch byth ein bod wedi paratoi yn iawn!" meddai Dad-cu.

"Diolch byth am Pero!" dywedodd Ifan, gan roi brechdan o'r bag iddo!



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ble'r oedd Ifan a Dad-cu'n mynd?
2. Beth oedd ganddyn nhw yn y bag?
3. Beth oedd enw'r ci?
4. Pam fod dad-cu ac Ifan wedi colli'r llwybr?



Trafodwch:-

Beth ddylech chi fynd gyda chi pan fyddwch chi'n mynd i gerdded? Pam?

Yr Wyddfa



Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd Ifan a'i ddad-cu am fynd am dro i ben yr Wyddfa. Roedden nhw wedi gwisgo esgidiau cerdded ac roedd ganddyn nhw got law yr un. Yn ei fag roedd gan Ifan ddigon o frechdanau. Roedd Pero'r ci yn mynd gyda nhw hefyd. Wedi cerdded a chwysu gwaeddodd Dad-cu,

"'Co fe—y copa!"

Ar y ffordd i lawr daeth niwl trwchus iawn a doedd Ifan a'i Ddad-cu ddim yn medru gweld y llwybr. Roedd Ifan yn oer ac yn wlyb ac roedd arno ofn. Daeth Pero i gerdded wrth ymyl Ifan, a chyn bo hir roedden nhw yn ôl ar y llwybr yn ddiogel.

"Diolch byth ein bod wedi paratoi yn iawn!" meddai Dad-cu.

"Diolch byth am Pero!" dywedodd Ifan, gan roi brechdan o'r bag iddo!



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ble'r oedd Ifan a Dad-cu'n mynd?
2. Beth oedd ganddyn nhw yn y bag?
3. Beth oedd enw'r ci?
4. Pam fod Dad-cu ac Ifan wedi colli'r llwybr?
5. Sut ddaeth Ifan a Dad-cu i lawr yn ddiogel?



Trafodwch:-

Beth ddylech chi fynd gyda chi pan fyddwch chi'n mynd i gerdded? Pam?

Santes Dwynwen

Tywysoges oedd Dwynwen. Roedd hi'n byw yn y chweched ganrif. Enw tad Dwynwen oedd y Brenin Brychan o Frycheiniog. Enw brawd Dwynwen oedd Dyfnan. Enw chwaer Dwynwen oedd Ceinwen.


Enw cariad Dwynwen oedd Maelon. Roedd Maelon a Dwynwen eisiau priodi.


Doedd tad Dwynwen ddim yn hoffi Maelon. Roedd Brychan eisiau Dwynwen briodi tywysog arall. Roedd Dwynwen yn drist iawn.

Aeth Dwynwen i fyw ar Ynys Llanddwyn. Mae Ynys Llanddwyn ar Ynys Môn. Adeiladodd Dwynwen eglwys ar Ynys Llanddwyn. Heddiw, Dwynwen ydy Santes Cariadon Cymru.












Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw brawd Dwynwen?
2. Pam na chafodd Dwynwen a Maelon briodi?
3. I ble aeth Dwynwen i fyw?
4. Pam fod Dwynwen yn enwog heddiw?




Trafodwch:-

- Ydych chi wedi gweld neu wedi bod mewn priodas?
- Beth welsoch chi?
- Beth glywsoch chi?
- A ddigwyddodd rhywbeth cyffrous yn ystod y dydd?
- A wnaethoch chi fwynhau? Pam?

Santes Dwynwen


Tywysoges oedd Dwynwen. Roedd hi'n byw yn y chweched ganrif. Enw tad Dwynwen oedd y Brenin Brychan o Frycheiniog. Enw ei brawd oedd Dyfnan ac enw ei chwaer oedd Ceinwen.




Roedd ganddi gariad o'r enw Maelon. Roedd Maelon a Dwynwen eisiau priodi.



Yn anffodus, doedd tad Dwynwen ddim yn hoffi Maelon. Roedd Brychan eisiau Dwynwen briodi tywysog arall. Roedd Dwynwen yn drist iawn.



Aeth Dwynwen i fyw ar Ynys Llanddwyn. Mae Ynys Llanddwyn ar Ynys Môn. Adeiladodd eglwys ar Ynys Llanddwyn.




Heddiw, Dwynwen ydy Santes Cariadon Cymru. Rydyn ni, Y Cymry, yn dathlu Dydd Santes Dwynwen ar y 25ain o Ionawr drwy roi cerdyn i'n cariad.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw brawd Dwynwen?
2. Oddi wrth bwy gafodd hi gerdyn Sant Ffolant?
3. Pam na chafodd Dwynwen a Maelon briodi?
4. I ble aeth Dwynwen i fyw?
5. Pam fod Dwynwen yn enwog heddiw?
6. Pryd ydyn ni'n dathlu Dydd Santes Dwynwen?



Trafodwch:-

- Ydych chi wedi gweld neu wedi bod mewn priodas?
- Beth welsoch chi?
- Beth glywsoch chi?
- A ddigwyddodd rhywbeth cyffrous yn ystod y dydd?
- A wnaethoch chi fwynhau? Pam?

Barti Ddu

Sgwrs gyda Barti Ddu

Bore Da: Helô Barti Ddu. Beth ydy dy enw go iawn di?


Barti Ddu: Helô. John Roberts ydy fy enw go iawn i.

Bore Da: Pryd cest ti dy eni?

Barti Ddu: Ces i fy ngeni yn 1682 yng Nghasnewydd Bach yn Sir Benfro.

Bore Da: Ble wyt ti'n byw?

Barti Ddu: Dwi'n byw ar long ers pan oeddwn i'n 10oed.



Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn BORE DA.


Rheolau Llong Barti Ddu:

- Dim rhegi
- Diffodd golau am 8 o'r gloch y nos
- Dim gweithio ar ddydd Sul
- Rhannu'r trysor rhwng pawb
- Ymddeol ar ôl gwneud ffortiwn



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw go iawn Barti Ddu?
2. Pryd gafodd ei eni?
3. Beth oedd yn digwydd am 8 o'r gloch y nos?
4. Beth oedd e'n mynd i wneud ar ôl ennill ei ffortiwn?



Trafodwch:-

Pe baech chi'n cael y cyfle i gwrdd â Barti Ddu pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddo?

Barti Ddu

Sgwrs gyda Barti Ddu

Bore Da: Helô Barti Ddu. Beth ydy dy enw go iawn di?
Barti Ddu: Helo. John Roberts ydy fy enw go iawn i.
Bore Da: Pryd cest ti dy eni?
Barti Ddu: Ces i fy ngeni yn 1682 yng Nghasnewydd Bach yn Sir Benfro.
Bore Da: Ble wyt ti'n byw?
Barti Ddu: Dwi'n byw ar long ers pan oeddwn i'n 10oed.
Bore Da: Beth ydy lliw dy wallt ti?
Barti Ddu: Du ydi lliw fy ngwallt i.
Bore Da: Beth wyt ti'n hoffi?
Barti Ddu: Dwi'n hoffi dillad lliwgar, a bod yn fôr leidr!



Rheolau Llong Barti Ddu

- Dim cweryla
- Dim hapchwarae
- Dim rhegi
- Diffodd golau am 8 o'r gloch y nos
- Dim gweithio ar ddydd Sul
- Rhannu'r trysor rhwng pawb
- Ymddeol ar ôl gwneud ffortiwn

Daeth y wybodaeth o'r cylchgrawn BORE DA.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw go iawn Barti Ddu?
2. Ble gafodd ei eni?
3. Sut fath o ddillad oedd e'n hoffi?
4. Beth oedd yn digwydd am 8 o'r gloch y nos?
5. Beth oedd ddim yn digwydd ar ddydd Sul?
6. Beth oedd e'n mynd i wneud ar ôl ennill ei ffortiwn?

Trafodwch:-

Pe baech chi'n cael y cyfle i gwrdd â Barti Ddu pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddo?



Y Cipio


Wrth gerdded am adre
Rhyw noson o'r pentre
Fe glywais rhyw sŵn uwch fy mhen;
Edrychais i fyny
Dechreuais i grynu
Pan welais y golau'n y nen.


Fe ddaeth tuag ataf
Gan ddisgyn yn araf
Rhyw siâp oedd yn debyg i nyth;
Ac yna yn sydyn
Rhyw greadur bach melyn
A'm cododd i fyny yn syth.

Ei ddwylo mawr blewog
A'i fysedd ewinog
Yn cydio amdana i'n dynn;
Ac yna fel roced
I ffwrdd am ryw blaned
Ymhell draw'n y gofod mawr gwyn.

Dechreuais i grio
A sgrechian a chicio
A ffoi wnes am adre ar frys;
Yn hedfan drwy'r gofod
A dyma syfrdandod
Disgynnais o'r gwely – yn chwys.

Eilir Rowlands.







Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Edrychwch eto ar y gerdd ac atebwch:
   * Beth yw teitl y gerdd ?
   * Sawl pennill sydd i'r darn ?
   * Pwy yw'r bardd ?

2. Beth welodd y plentyn wrth gerdded am adre ?

3. Sut fath o greadur oedd yn y darn ?

4. I ble aeth y roced â nhw ?



Trafodwch:-

Fyddech chi'n hoffi mynd i'r gofod ? Pam ?



Y Cipio


Wrth gerdded am adre
Rhyw noson o'r pentre
Fe glywais rhyw sŵn uwch fy mhen;
Edrychais i fyny
Dechreuais i grynu
Pan welais y golau'n y nen.


Fe ddaeth tuag ataf
Gan ddisgyn yn araf
Rhyw siâp oedd yn debyg i nyth;
Ac yna yn sydyn
Rhyw greadur bach melyn
A'm cododd i fyny yn syth.

Ei ddwylo mawr blewog
A'i fysedd ewinog
Yn cydio amdana i'n dynn;
Ac yna fel roced
I ffwrdd am ryw blaned
Ymhell draw'n y gofod mawr gwyn.

Dechreuais i grio
A sgrechian a chicio
A ffoi wnes am adre ar frys;
Yn hedfan drwy'r gofod
A dyma syfrdandod
Disgynnais o'r gwely – yn chwys.

Eilir Rowlands.







Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Edrychwch eto ar y gerdd ac atebwch:
   * Beth yw teitl y gerdd ?
   * Sawl pennill sydd i'r darn ?
   * Pwy yw'r bardd ?
   * Oes odl ? Pa eiriau sy'n odli ?

2. Beth welodd y plentyn wrth gerdded am adre ?

3. Sut fath o greadur oedd yn y darn ?

4. I ble aeth y roced â nhw ?

5. Sut oedd y plentyn yn teimlo ?

6. Beth ddigwyddodd ar y diwedd ?




Trafodwch:-

Fyddech chi'n hoffi mynd i'r gofod ? Pam?


Pili Pala

Mae pob Pili Pala (neu'r Glöyn Byw) yn mynd trwy Gylchred Bywyd gyflawn. Y cam cyntaf ydy'r wy ac yn y pendraw mae'n troi'n Bili Pala.



pen

2 deimlydd pastynog



corff (thoracs)

pen ôl (abdomen)


A wyddoch chi fod y Pili Pala yn blasu pethau gyda'i draed?

Mae tua 60 o wahanol fathau o löynnod byw yng ngwledydd Prydain.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw'r enw arall a ddefnyddir am y Pili Pala?
2. Pa air arall sydd am **ben ôl** y Pili Pala?
3. Sut mae'r Pili Pala yn blasu ei fwyd?
4. Sawl gwahanol fath o Löynnod Byw sydd ym Mhrydain?




Trafodwch:-


Beth am fynd ar y wê i ddarganfod rhagor o wybodaeth am y Pili Pala?

Adroddwch nôl i'r grŵp.

Pili Pala

Mae pob Pili Pala (neu'r Glöyn Byw) yn mynd trwy Gylchred Bywyd gyflawn. Y cam cyntaf ydy'r wy. Bydd Larfa (lindysyn) yn deor o'r wy. Ar ôl i'r Larfa fwrw'i groen 5 gwaith bydd yn troi yn Bwpa, ac yna'n newid yn Bilia Pala neu'n Löyn Byw.





A wyddoch chi fod y Pili Pala yn blasu pethau gyda'i draed?

Mae tua 60 o wahanol fathau o löynnod byw yng ngwledydd Prydain.

Mae gan y Pili Pala 4 o adenydd, sef 2 adain flaen a 2 adain ôl.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw'r enw arall a ddefnyddir am y Pili Pala?
2. Pa gam yw'r ail gam o gylchred bywyd y Glöyn Byw?
3. Sawl adain sydd gan y Pili Pala?
4. Sut mae'r Pili Pala yn blasu ei fwyd?
5. Pa air arall sydd am **ben ôl** y Glöyn Byw?
6. Sawl gwahanol fath o Löynnod Byw sydd ym Mhrydain?



Trafodwch:-

Beth am fynd ar y wê i ddarganfod rhagor o wybodaeth am y Pili Pala?

Adroddwch nôl i'r grŵp.

Y DYLLUAN

Pan mae'r haul yn machlud mae'r rhan fwyaf o adar yn mynd i gysgu, ond ar yr un pryd mae rhai adar yn dechrau dihuno. Mae'r dylluan ac adar eraill sy'n bwydo yn y nos yn cael eu galw yn adar y nos.

Nid yw'r dylluan yn medru symud ei llygaid ond mae'n medru troi ei gwddf o amgylch er mwyn edrych y tu ôl iddi.



Does dim dannedd gan y dylluan, felly nid yw'n medru cnoi ei bwyd—mae'n llyncu llygod bach ac adar yn gyfan!!

Mae'r crafangau crwn yn medru lladd llygod, llygod ffyrnig, corynnod a madfallod.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd mae'r dylluan yn dihuno?
2. Beth sy'n arbennig am wddf y dylluan?
3. Beth yw ei bwyd?
4. Sut mae'r dylluan yn bwyta ei bwyd?



Trafodwch:-

Pa anifeiliaid eraill sy'n dod allan yn y nos?
Beth wyddoch chi amdanynt?

Y DYLLUAN

Pan mae'r haul yn machlud mae'r rhan fwyaf o adar yn mynd i gysgu, ond ar yr un pryd mae rhai adar yn dechrau dihuno. Mae'r dylluan ac adar eraill sy'n bwydo yn y nos yn cael eu galw yn adar y nos. Maent yn dod allan yn y nos gan fod llai o anifeiliaid yn cystadlu am fwyd. Mae tylluanod yn hwtian yn uchel ar ei gilydd yn ystod y nos. Maent yn cael eu clywed ond anaml y byddant yn cael eu gweld.

Fel pob aderyn arall mae eu clustiau fel holltiau bychain sydd wedi cael eu cuddio gan blu.

Nid yw'r dylluan yn medru symud ei llygaid ond mae'n medru troi ei gwddf o amgylch er mwyn edrych y tu ôl iddi.



Mae'r dylluan yn medru gweld yn y nos ddeg gwaith yn well na phobl!!

Mae'r crafangau crwn yn medru lladd llygod, llygod ffyrnig, corynnod a madfallod.

Mae gan lawer iawn o adar y nos blu tywyll sydd yn eu helpu i guddio yn y tywyllwch.

Does dim dannedd gan y dylluan, felly nid yw'n medru cnoi ei bwyd—mae'n llyncu llygod bach ac adar yn gyfan!!

Mae'r dylluan yn medru hedfan heb wneud unrhyw fath o sŵn o gwbl.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd mae'r dylluan yn dihuno?
2. Pam ei bod hi'n dod allan yn y nos?
3. Beth sy'n arbennig am wddf y dylluan?
4. Pa fath o blu sydd ganddi?
5. Beth yw ei bwyd?
6. Sut mae'r dylluan yn bwyta ei bwyd?

Trafodwch:-

Pa anifeiliaid eraill sy'n dod allan yn y nos?
Beth wyddoch chi amdanynt?